# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-12-10-p1: 24 Mehefin 2010

## Teitl: Papur tystiolaeth - Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - materion Llywodraeth Leol

### Setliad Llywodraeth Leol 2010-11

Mae setliad refeniw llywodraeth leol y flwyddyn ariannol hon yn darparu £4.05 biliwn o Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol. Mae hyn yn gynnydd o 2.1% ar sail gymharol, a ddisgrifiwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel "heriol ond teg" yn yr amgylchedd ariannol sydd ohoni.

Mae'r setliad cyfalaf ar gyfer 2010-11 yn cynnwys cyfanswm o £576 miliwn o gyllid cyfalaf, gostyngiad o 12.2% er 2009-10. Cyfuniad o £19 miliwn o gyllid ar gyfer ysgolion a ffyrdd lleol yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 09-10 a £26 miliwn ar gyfer rhaglenni cyllid cyfalaf (mewn meysydd megis tân ac achub; rheilffyrdd a hedfan; ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) y bwriadwyd iddo ddod i ben yn 09-10 beth bynnag sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn. Er bod gostyngiad yn y setliad cyfalaf cyffredinol mae lefel y cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo yr wyf yn gyfrifol amdano sy'n mynd i awdurdodau lleol yn parhau'n ddigyfnewid ar £217 miliwn. O'r gronfa gyfalaf heb ei neilltuo hon, telir £54 miliwn fel grant cyfalaf a darperir y balans o £163 miliwn fel cymorth benthyca.

Prif sbardun Setliad Heddlu Cymru yw lefel Grant yr Heddlu heb ei neilltuo a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Mae'r setliad ar gyfer 2010-11 yn cynrychioli cynnydd o 2.6% ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu £167 miliwn. Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol y Setliad ym mis Chwefror.

Ar adeg cyflwyno'r papur hwn, mae'r Gweinidog dros Fusnes a Chyllidebau a'i swyddogion yn ceisio esboniad pellach gan Lywodraeth y DU ynglŷn ag effaith bosibl y toriadau canol blwyddyn gwerth £6.2 biliwn a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd ar 24 Mai. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei farn fod disgresiwn gan y Gweinyddiaethau Datganoledig i ddod o hyd i'r arbedion yn ystod y flwyddyn neu eu cario drosodd i 2011-12. Byddai'r olaf o'r rhain yn ychwanegu at y boen o ddod o hyd i'r arbedion a fydd yn deillio'n anorfod o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yr hydref. Yn ei Datganiad i'r Cynulliad ar 25 Mai, dywedodd y Gweinidog y dylai unrhyw arbedion canol blwyddyn y bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad eu gwneud ystyried y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi eu rhoi ar waith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd megis dileu'r cwangos (lle mae Llywodraeth y DU yn ceisio "dal i fyny", i bob pwrpas) a chasgliad Comisiwn Holtham nad yw Cymru yn derbyn digon o gyllid o dan drefniadau ariannu presennol "Fformiwla Barnett".

Ni fyddai'n bosibl ailagor setliad refeniw 2010-11. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gwneud hynny ychwaith. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny. Mae deddfwriaeth gyfredol yn grymuso Llywodraeth y Cynulliad i lunio adroddiad diwygio i newid sail dosbarthu Grant Cynnal Refeniw ond nid i ddiwygio'r swm cyffredinol, unwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo.

Ar 28 Mai cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ostyngiad "canol blwyddyn" o £135 miliwn yng nghyllid yr heddlu fel cyfraniad at ei chyfran o'r £6.2 miliwn o arbedion. Disgwylir i'r 4 awdurdod heddlu yng Nghymru ddod o hyd i £6.9 miliwn o'r swm hwn, yn bennaf o gyllid refeniw. Daw'r gostyngiad o gasgliad o 5 grant penodol (nad yw un ohonynt yn berthnasol i Gymru) a adwaenir gyda'i gilydd fel "Grantiau Rheol 2". Mae'r grantiau hyn yn cynnwys cronfa gyllid grynswth ar gyfer plismona cefn gwlad; gwasanaethau fforensig; hyfforddiant a datblygiad proffesiynol; a thâl blaenoriaeth i swyddogion yr heddlu i gydnabod amodau gweithio annormal ac anodd. Nid oes unrhyw effaith ar brif fformiwla ariannu'r heddlu sy'n pennu cyfraniad Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth y Cynulliad. Ffrydiau ariannu pwysig eraill y Swyddfa Gartref nad ydynt yn destun newidiadau canol blwyddyn yw'r Gronfa Ymladd Troseddau a Phlismona yn y Gymdogaeth.

### Ymrwymiadau Cymru'n Un

Mae dau o ymrwymiadau "Cymru'n Un" yn rhan o'm portffolio Llywodraeth Leol:-

Cynyddu rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau bach, a

Helpu pensiynwyr gyda'r dreth gyngor.

Gwnaed y ddau ohonynt, y cyntaf 2007-08 a'r ail yn 2008-09.

Darparwyd £7 miliwn y flwyddyn i ariannu'r cynnydd mewn rhyddhad ardrethi busnes sy'n rhoi rhwng 50% a 25% o ryddhad i ryw 50% o fusnesau bach yng Nghymru, gyda threfniadau rhyddhad penodol ar gyfer undebau credyd, gwarchodwyr plant cofrestredig a swyddfeydd post. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyfanswm o ryw £20 miliwn ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

Darparwyd £2 filiwn i helpu pensiynwyr gyda'r dreth gyngor yn 2009-10, a £4 miliwn y flwyddyn ariannol hon. Talwyd yr arian fel grant i awdurdodau lleol i'w ddefnyddio yn ôl eu disgresiwn i helpu pensiynwyr, gan ymateb i amgylchiadau lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r arian i helpu pensiynwyr nad ydynt yn gymwys i dderbyn rhyddhad llawn budd-dal y dreth gyngor.

### Ardrethi Annomestig

Bu llawer o weithgarwch ym maes ardrethi annomestig yn deillio o fesurau i wrthsefyll y dirwasgiad a'r ymarfer ailbrisio pum mlynedd

statudol a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2010. Lluniwyd rheoliadau i eithrio pob safle gwag sydd â gwerth ardrethol o £18,000 neu lai'r flwyddyn rhag ardrethi tan 31 Mawrth 2011. Ar gyfer y safleoedd hynny sydd â gwerth ardrethol uwch na £18,000 mae'r cyfnodau eithrio presennol o 3 mis ar gyfer safleoedd masnachol a 6 mis ar gyfer safleoedd diwydiannol (yn cynnwys warysau) yn dal yn berthnasol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu ymestyn yr eithriad a fwriedir rhag ardrethi annomestig i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai i Gymru (gyda rhyddhad taprog pellach i fusnesau sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000) am flwyddyn o 1 Hydref 2010. Cyhoeddwyd hyn gan Alistair Darling AS yng Nghyllideb y DU ym mis Mawrth. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar reoliadau i roi'r eithriadau hyn ar waith.

Arweiniodd adolygiad pum mlynedd statudol 2010 a gynhaliwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio at werthoedd ardrethol is i ryw 60% o fusnesau Cymru. O'r 40% sy'n weddill bu llawer o gyhoeddusrwydd i rai mannau â phroblem fel Arberth. Nid yw'r Ailbrisio yn cynyddu swm cyffredinol yr ardrethi annomestig a gesglir, dim ond ailddosbarthu'r rhwymedigaeth yn unol â newidiadau mewn gwerth ardrethol. Ym mis Chwefror cyhoeddais ostyngiad o 16% yn y lluosydd ardrethi er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw gynnydd mewn swm yn deillio o hyn. Ar ôl ymgynghori â Ffederasiwn y Busnesau Bach, penderfynais hefyd na ddylid cyflwyno cynllun rhyddhad trosiannol. Byddai'n rhaid i unrhyw gynllun rhyddhad dalu amdano'i hun gyda darpar enillwyr yn sgil gwerthoedd ardrethol is yn talu am y busnesau hynny (ar ben uchaf y raddfa fel arfer) y cynyddodd eu rhwymedigaeth ardrethol. Serch hynny, addasais drothwyon y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i sicrhau bod y cyfan o'r £20 miliwn yn dal ar gael ar gyfer rhyddhad. Fis Rhagfyr diwethaf ysgrifennais at holl Weinidogion y Cynulliad yn nodi fy mhenderfyniadau a'r rhesymau drostynt.

## Y Dreth Gyngor

Yn 2010-11 cynyddodd y dreth gyngor yng Nghymru o 3.7% ar gyfartaledd, y cynnydd blynyddol isaf ers Datganoli ym 1999.

Ar 1 Ebrill daeth Tribiwnlys Prisio unigol i rym yng Nghymru. Bydd strwythur Cyngor Llywodraethu diwygiedig, sy'n cynnwys un Llywydd etholedig am y tro cyntaf, yn dod i rym o 1 Gorffennaf. Roedd cynigion manwl ar gyfer strwythur tribiwnlys unedig yn destun dau ymarfer ymgynghori cyn ei weithredu. Bydd yn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaeth heb danseilio'r presenoldeb rhanbarthol cryf. Bydd swyddfeydd rhanbarthol yng Nghasnewydd, Caerfyrddin a Gogledd Cymru yn parhau i wasanaethu gwrandawiadau tribiwnlys lleol.

Lluniwyd rheoliadau hefyd i roi gostyngiad o 50% ar y dreth gyngor, o 1 Ebrill 2010, ar ail gartrefi personél y lluoedd arfog yng Nghymru.

## Cyfrifyddu, Archwilio a Llywodraethu Llywodraeth Leol

Lluniwyd dwy set allweddol o reoliadau a fydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2010 ac 1 Ebrill 2010. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2010 yn gwella amgylchedd rheoli awdurdodau lleol ac yn gwella tryloywder trwy adrodd yn fwy manwl ar dâl uwch swyddogion. Mae Rheoliadau Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu 2010 yn darparu ar gyfer cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i bolisïau cyfrifyddu awdurdodau lleol o flwyddyn ariannol 2010-11.

Lluniwyd rheoliadau hefyd i alluogi awdurdodau lleol i ymestyn y gohiriad cyfrifyddu colledion posibl sy'n deillio o gwymp bancio Gwlad yr Iâ yn 2008 tan ddiwedd blwyddyn gyfrifyddu 2010-11. Mae'r sefyllfa gyffredinol gryn dipyn yn fwy optimistaidd nag oedd flwyddyn yn ôl gan fod arian yn dechrau cael ei ddychwelyd a dylai'r gohiriad ychwanegol olygu bod y sefyllfa o ran lefel wirioneddol y colledion yn dod yn gliriach o lawer.

Parhau y mae gwaith ar gasglu a mireinio data ariannol awdurdodau lleol sydd ei angen i'w fwydo i Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan cyfunol y DU a fydd yn rhoi golwg llawer mwy cynhwysfawr a chyson o gyllid cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU. Cynhaliwyd dau "ffug rediad" o'r ymarfer yn ystod y blynyddoedd ariannol a aeth heibio. Bydd cyfuniad 2009-10 yn darparu'r set "fyw" gyntaf o gyfrifon a archwiliwyd yn llawn.

## Rhagolwg Ariannol y Dyfodol

Mae'n amlwg y bydd y Gyllideb sydd ar ddod ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yr Hydref (a thu hwnt, mae'n bosibl iawn) yn golygu y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus cyfan wneud penderfyniadau anodd a heriol dros ben. Bydd pa mor anodd a heriol yw'r rhain yn dibynnu ar ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ond rwyf wedi bod yn agored iawn gyda llywodraeth leol wrth ddweud wrthi y dylai gynllunio ar gyfer gostyngiadau arian parod cronnus o 3% o leiaf mewn refeniw a 10% mewn cyfalaf o un flwyddyn i'r llall. Ni allwn ddiystyru'r ffaith y bydd y darlun terfynol, pan ddaw'n amlwg, gryn dipyn yn waeth na hyn, hyd yn oed.

Mae llywodraeth leol yn derbyn yn llwyr nad yw busnes fel arfer yn opsiwn o ran cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol a bod rhaid i'r dull o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau newid yn sylfaenol os ydym am gwrdd â'r heriau. I'r perwyl hwn rwy'n croesawu ymglymiad llawn iawn llywodraeth leol â ffrydiau gwaith y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi. Mae Adroddiad Is-grŵp Gwariant blynyddol CLILC, sy'n nodi'r risgiau a'r pwysau allweddol a'r ffyrdd y gellir eu lliniaru, bron â'i gwblhau. Bydd hyn o gymorth mawr yn ystod rownd pennu'r gyllideb. Rwy'n craffu, linell wrth linell, ar y Gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bresennol ac yn yr amgylchiadau sy'n ein hwynebu ni ellir ystyried bod unrhyw gategori gwariant "y tu hwnt i ystyriaeth" o ran chwilio am arbedion.

## Cyflog Cyfartal ym maes Llywodraeth Leol

Mae dwy agwedd ar fater cyflog cyfartal i awdurdodau lleol. Mae angen mynd i'r afael â'r ddwy cyn y gellir dweud bod y mater wedi'i ddatrys yn foddhaol. Mae'r rhain yn ymwneud ag ôl-daliadau dyledus a chyflwyno, yn ôl y galw, strwythurau tâl a graddio diwygiedig.

Mae sefyllfa awdurdodau lleol unigol yn gwahaniaethu'n amlwg o ran ôl-daliadau ac mae eu darpar rwymedigaeth yn ymwneud i raddau helaeth â nifer y cynlluniau bonws o fewn strwythur tâl awdurdod yn y gorffennol. Os sefydlir rhwymedigaeth i dalu ôl-daliadau dyledus, menywod sy'n gweithio fel glanhawyr, gofalwyr a staff arlwyo yw'r gweithwyr yr effeithir arnynt gan mwyaf.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyfanswm o £54 miliwn o fewn y grant cynnal refeniw heb ei neilltuo dros y tair blynedd ariannol o 2005-06 i 2007-08 i ariannu gweithredu strwythurau tâl a graddio statws sengl newydd. Cynyddodd yr arian hwn yn unol â lefel gyffredinol y codiad yn y setliad refeniw blynyddol yn y blynyddoedd ariannol ers hynny.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian parod i awdurdodau lleol ar gyfer y rhwymedigaeth am ôl-daliadau. Yn yr achosion hyn daw cymorth ar ffurf "cyfarwyddyd cyfalafu" gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hyn, i bob pwrpas, yn caniatáu i awdurdod ddefnyddio derbyniadau cyfalaf neu fenthyca i ariannu'r rhwymedigaeth. Mae angen i geisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan awdurdodau lleol fodloni meini prawf arbennig a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sy'n penderfynu cyhoeddi cyfarwyddyd (neu beidio).

Pan fenthycir arian i ariannu'r rhwymedigaeth am ôl-daliadau, bydd angen i'r awdurdod lleol barhau i ariannu ad-daliadau'r ddyled; i bob pwrpas maent yn gwasgaru'r gost i'r awdurdod dros nifer o flynyddoedd (cyfnod o 20 mlynedd fel arfer).

Hyd yn hyn mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn ceisiadau am gyfarwyddiadau gan saith awdurdod lleol. Cymeradwywyd pob un ohonynt hyd at werth llawn y ceisiadau (£52.3 miliwn yn ei grynswth). Mae dau awdurdod wedi setlo rhwymedigaethau ôl-daliadau heb ofyn am gyfarwyddyd. Mae'n amlwg o'm trafodaethau gydag awdurdodau lleol na fydd pob un sydd eto i bennu rhwymedigaeth derfynol yn ceisio cyfarwyddyd. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gyfarwyddyd gan awdurdodau lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10.

Er nad yw cymeradwyo cyfarwyddyd yn drafodiad arian parod per se, mae gwerth cyfarwyddiadau a gymeradwywyd yn cyfrif tuag at Ofyniad Benthyca'r Sector Cyhoeddus ac fel y cyfryw ni ellir rhoi unrhyw warant ynghylch a fydd y cyfarwyddiadau ar gael a'u gwerth cyffredinol. Gwnaed hyn yn glir i'r awdurdodau lleol.

Ym mis Ionawr 2009, roedd wyth awdurdod lleol heb gwblhau'r broses gwerthuso swyddi fel rhan o lunio cytundebau statws sengl. Dim ond un oedd heb ei gwblhau erbyn mis Hydref 2009. Mae chwe awdurdod lleol wedi cwblhau'r broses ac wedi rhoi strwythurau tâl a graddio newydd ar waith.

Mae naw awdurdod wedi setlo hawliadau rhwymedigaeth cyflog cyfartal a bydd un yn setlo yn 2010-11. Deellir fod materion yn dal heb eu datrys gan y deuddeg awdurdod sy'n weddill a'u bod yn amddiffyn yn erbyn hawliadau.

Mae'r dirwedd economaidd a deddfwriaethol yn newid, gan gyflwyno heriau a chyfleoedd y mae'n rhaid eu hwynebu gyda'n gilydd. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd dewisiadau anodd yn wynebu awdurdodau cyhoeddus ar bob lefel o lywodraeth wrth i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus gynyddu. Ni ellir ildio'r cynnydd a wnaed ar gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn yr hinsawdd hon.

Wrth i mi ymweld ag awdurdodau lleol rwyf wedi egluro fy mod yn dymuno gweld diwedd ar fater cyflog cyfartal i'r rhywiau. Rwyf wedi pwysleisio'r ymrwymiad moesol i'w ddatrys cyn gynted â phosibl. Er hynny, sylweddolaf yn llawn bod hwn yn fater cymhleth iawn sydd wedi golygu dadansoddiad manwl o strwythurau tâl a graddio a thrafodaethau sensitif a maith iawn, yn aml, rhwng cyflogwyr a chynrychiolwyr undeb yn lleol ac yn genedlaethol. Yn gefndir i hyn roedd cyfraith achos newidiol a oedd yn dal i esblygu yn sgil penderfyniadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, sydd wedi cynyddu ansicrwydd ac wedi golygu, ar adegau, bod rhaid i'r awdurdodau arfarnu eu dulliau gweithredu o'r newydd.

Ym mis Mawrth ysgrifennais at bob awdurdod lleol yn gofyn am gadarnhad o'u cynnydd wrth weithredu cytundebau statws sengl; eu hamserlen ar gyfer eu cwblhau; a'r tebygolrwydd y byddent yn gofyn am gyfarwyddyd cyfalafu. Rwyf wedi derbyn y rhan fwyaf o'r ymatebion ac mae fy swyddogion yn mynd ar drywydd yr awdurdodau hynny sy'n dal heb ymateb. Pan fydd gennyf ddarlun cyflawn byddaf yn ystyried pa gamau fyddai orau i mi eu cymryd i fynd â'r broses yn ei blaen yn gyflymach.

Bydd Deddf Cydraddoldeb 2010, am y tro cyntaf, yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyflwyno dyletswyddau penodol ym maes cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2009, gofynnwyd i'n prif randdeiliaid beth y dylid ei gynnwys yn y dyletswyddau hyn. Daeth ymateb clir y dylai'r dyletswyddau newydd hyn geisio cywiro'r anghydraddoldeb sy'n parhau o ran cyflogau. Rydym yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn ac edrychaf ymlaen at weithio ar sut i wireddu'r dyhead hwn gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, TUC Cymru a'n partneriaid eraill yn y sector statudol a'r trydydd sector yn ystod y misoedd i ddod.

Ni fydd deddfwriaeth yn ddigonol heb arweinyddiaeth. Byddaf yn parhau i annog awdurdodau cyhoeddus i wneud cynnydd ar gyflog cyfartal yn ystod fy nghyfarfodydd rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi gweithgareddau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, TUC Cymru a llywodraeth leol i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach. Fel Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, byddaf yn parhau i gynnig arweinyddiaeth a chefnogaeth i ddatrys cyflog anghyfartal yn ôl y galw.

## Cytundebau Canlyniadau

Cyhoeddwyd y Prosbectws Cytundeb Canlyniadau ar 31 Mawrth 2010, ar ôl ymgysylltu â'r Cyngor Partneriaeth ac amrywiaeth o awdurdodau lleol partner eraill.

Pwrpas Cytundebau Canlyniadau yw sefydlu fframwaith atebolrwydd mwy effeithiol i awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Fe'u cynlluniwyd i ddarparu cymhellion i wella yn ogystal â chynyddu'r broses o gyflawni canlyniadau lleol o ansawdd. Ategir y rhaglen gan

£31 miliwn yn 2010-11. Er mwyn manteisio ar y cronfeydd hyn, bydd angen i awdurdodau gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad. Yn yr un modd ag ar gyfer Cytundebau Gwella, bydd taliadau i awdurdodau yn seiliedig ar ganlyniadau.

Bu rhywfaint o anesmwythyd yn ddiweddar ynglŷn â'n dull gweithredu sydd, o reidrwydd, yn fwy beichus nag o'r blaen. Gwaethygwyd y sefyllfa gan y cyhoeddiad na fyddai'r grant Cymorth yn cael ei ddychwelyd i'r Grant Cynnal Refeniw fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Serch hynny, rwy'n falch ein bod bellach gryn ffordd at baratoi a thrafod cytundebau gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Byddaf yn ysgrifennu at John Davies cyn hir i bwysleisio fy ymrwymiad i'r rhaglen a'r angen i sicrhau gwir welliannau o ran canlyniadau i'r dinesydd. Byddaf yn ymwneud yn agos â datblygu'r Cytundebau a'r gwerthusiad a fydd yn edrych a gyflawnwyd y canlyniadau a gytunwyd, yn ei dro.

### Mesur Llywodraeth Leol 2010

Yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009-10, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, ar y pryd, fwriad Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno Mesur Llywodraeth Leol a fyddai'n: cryfhau swyddogaeth cynghorau cymuned, dileu'r rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll i'w hethol ar awdurdodau lleol a gwella swyddogaethau penderfynu a chraffu llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn gweithio i gyflwyno'r Mesur arfaethedig cyn toriad yr haf; yn ôl pob tebyg bydd yn un o'r Mesurau mwyaf i'r Cynulliad ei ystyried hyd yn hyn, gan awgrymu cryn ymrwymiad o ran amser i'r Cynulliad graffu arno. Bydd y ddogfennaeth ategol ac esboniadol arferol yn cyd-fynd â'r Mesur i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad.

### Adfer Ynys Môn

Dal i ddatblygu y mae digwyddiadau ar Ynys Môn ac mae'r Bwrdd Adfer yn parhau i ymwneud yn agos â materion y cyngor.

Rwy'n croesawu'r newidiadau gwleidyddol diweddar a ddylai arwain at fwy o sefydlogrwydd i'r Cyngor gan olygu y bydd mwy o bwyslais ar gyflawni i ddinasyddion a llai ar gwerylon mewnol. Anogaf bob aelod o'r gynghrair newydd i wneud hynny. Yn benodol, mae'n hanfodol fod y gynghrair yn mynd ati ar frys i ddatblygu gweledigaeth gorfforaethol ystyrlon i'r Cyngor a'r ynys, yn cynnwys set gredadwy o amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn hon. Disgwyliaf y bydd y rhain wedi'u cytuno ac yn eu lle erbyn canol Gorffennaf.

Bydd y Bwrdd Adfer a minnau yn cefnogi'r gynghrair a gallai gynrychioli cam pwysig tuag at sefydlogrwydd gwleidyddol. Er nad wyf yn awyddus i gymryd unrhyw fesurau pellach ar hyn o bryd, ni welaf ychwaith unrhyw siawns o gwbl o ddod â'n hymyrraeth i ben cyn yr haf nesaf. Yn y cyfamser, rwy'n dal i ystyried fy opsiynau os bydd cynnydd tuag at adferiad yn pallu neu os bydd y gynghrair yn methu.

### Cynhwysiant Digidol

Cychwynnodd menter cynhwysiant digidol ddiweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymunedau 2.0, ar 1 Ebrill 2009. Mae'n cynorthwyo unigolion, cymunedau a sefydliadau yn Ardaloedd Cydgyfeirio Cymru i elwa ar ddefnyddio technoleg, a'u helpu i oresgyn rhwystrau, cynyddu eu hyder a chreu cyfleoedd iddynt ddefnyddio sgiliau newydd.

Ym mis Mehefin bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi Fframwaith Cynhwysiant Digidol i Gymru ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Drwy'r Fframwaith hwn bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arweinyddiaeth strategol, gan weithio'n agos gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i alinio cynlluniau a chydgysylltu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r uchelgais yr ydym yn ei rhannu o gynhwysiant digidol.

### Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn symud yn ei blaen gan ganolbwyntio'n fwyfwy ar gyflenwi drwy bartneriaeth. Mae sefydlu Cronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn annog gwaith partneriaeth mwy gwirioneddol rhwng cymunedau a darparwyr gwasanaethau.

Bydd gwaith ar werthuso'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cychwyn yn yr haf. Bydd y gwerthusiad yn bwydo i unrhyw drafodaeth ar ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf ar ôl Ebrill 2012.

### Diogelwch Cymunedol

### Cynllun Diogelwch Cymunedol Tawelwch Meddwl i Bobl Hŷn

Drwy ei Gynllun Diogelwch Cymunedol Tawelwch Meddwl i Bobl Hŷn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £500,000 i gynorthwyo Partneriaeth Troseddau Carreg y Drws Cymru Gyfan i gynnal menter genedlaethol i fynd i'r afael â lladron sy'n twyllo er mwyn cael mynediad i gartrefi a throseddau carreg y drws eraill. Roedd yn bleser mawr gennyf fynychu lansiad yr ymgyrch ar 26 Mai yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Mae'r ymgyrch yn cynnig tri cham pedant i helpu i ostwng nifer y rhai sy'n dioddef yn sgil lladron a masnachwyr twyllodrus ledled Cymru, sef:

Os ydych chi'n amau, caewch y drysau!

Byddwch barod, byddwch gadarn

Ffoniwch gymydog neu'r heddlu

Hysbysebwyd y fenter hon ar y teledu ers 31 Mai ac ar y radio a hysbysfyrddau ers canol mis Mehefin. Mae gan yr ymgyrch hefyd ei gwefan bwrpasol ei hun sy'n rhoi cyngor rhad ac am ddim i bobl a allai fod yn poeni am y math yma o drosedd.

Yn 2009-10 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd bron i £1.2 miliwn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol o dan y cynllun tawelwch meddwl fel y gallai mentrau lleol fynd i'r afael â throsedd/ofn trosedd ymysg pobl hŷn. Defnyddiwyd yr arian ar gyfer amrywiaeth o fentrau lleol yn cynnwys:

Gweithgareddau wedi'u targedu

Gwella diogelwch

Codi ymwybyddiaeth o drosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol

Digwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau i hybu dealltwriaeth a meithrin perthynas rhwng pobl hŷn a phobl ifanc

### Trais yn erbyn Menywod

Un o'm prif flaenoriaethau yw dal i wneud yn siŵr nad yw trais yn erbyn menywod yn cael ei oddef yng Nghymru. Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ar 25 Mawrth 2010 pan lansiais "Yr Hawl i fod yn Ddiogel", strategaeth integredig 6 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â phob ffurf ar drais yn erbyn menywod. Cyhoeddais hefyd gynllun gweithredu 3 blynedd i helpu i gyflawni'r strategaeth hon a'r strategaeth bresennol ar gam-drin domestig.

Rwyf wedi darparu £1 filiwn yn ychwanegol ar gyfer 2010/11 i'r gyllideb gam-drin domestig/trais yn erbyn menywod gan wneud cyfanswm y gyllideb yn £4.4 miliwn i helpu i gyflawni'r cynllun gweithredu. Yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n dioddef trais yn eu herbyn a cham-drin domestig, mae'n bwysig ein bod yn herio'r canfyddiadau a'r stereoteip gwaelodol a all arwain at drais yn erbyn menywod a'u cam-drin. Dyna pam y lansiais, ar 27 Mai 2010, ymgyrch gyhoeddusrwydd Trais yn erbyn Menywod sy'n ceisio herio canfyddiadau pobl ynglŷn â'r ffin rhwng yr hyn sy'n ddiniwed a chamdriniaeth. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebion teledu, posteri a gwefan ac rwy'n siŵr y bydd yn helpu i ysgogi trafodaeth ar y mater pwysig hwn sy'n effeithio ar un o bob pedair menyw yng Nghymru.

Carl Sargeant AC,
Y Gweinidog dros Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol